**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/16/2023

Peredur Owen Griffiths AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ionawr 2023

Annwyl Peredur

**BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)**

Diolch ichi am eich cyfraniad i'r ddadl ar Ystyriaeth Gychwynnol y Bil neithiwr. Ymrwymais i ysgrifennu atoch ynglŷn â'r materion a godwyd gennych.

**Y panel ymgynghorol**

Fe wnaethoch ofyn am sicrwydd na fyddai hepgor y ddarpariaeth ar sefydlu panel ymgynghorol, a sefydlwyd yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, yn golygu na fyddai cyngor arbenigol a di-duedd ar gael i Weinidogion Cymru.

Mae'r rhesymau am beidio â chynnwys adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2016 yn y Bil cydgrynhoi wedi eu nodi ym mharagraff 30 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil, a osodwyd gerbron y Senedd ar 4 Gorffennaf 2022. Yn dilyn hynny rhoddais dystiolaeth i'r Pwyllgor ar y mater hwn ar 11 Gorffennaf, pan oeddwn yn gallu cadarnhau bod bwrdd Cadw, er bod Cadw yn rhan o Lywodraeth Cymru, yn cynnwys aelodau allanol a benodir drwy broses penodiadau cyhoeddus, sy'n darparu cyngor annibynnol ar y lefel honno os cyfyd yr angen.

Yn ychwanegol at hynny, rwy'n fodlon fod Cadw yn gallu cael gafael ar ystod o gyngor arbenigol a di-duedd, ochr yn ochr â'r hyn sydd ar gael o fewn ei strwythurau eang. Ni fydd dileu'r darpariaethau o Ddeddf 2016, nad ydynt erioed wedi eu cychwyn, yn effeithio ar hynny.

**Polisi cynllunio**

Fe wnaethoch ofyn am fanylion pellach ar yr amddiffyniad y mae polisi cynllunio yn ei roi i dreftadaeth archaeolegol Cymru o'i gymharu â'r ddarpariaeth yn Neddf 1979 ar gyfer creu safleoedd archaeolegol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyflwynwyd ardaloedd o bwysigrwydd archaeolegol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban gan Ran II o Ddeddf 1979. Nod y darpariaethau yw atal safleoedd archaeolegol rhag cael eu difrodi neu eu difa heb ganiatáu ar gyfer eu harchwilio a chofnodi'r olion yn gyntaf. Nid oes unrhyw ardaloedd erioed wedi eu dynodi yng Nghymru.

Mae polisi cynllunio yn darparu mwy o amddiffyniad nac y byddai dynodiad ardal o bwysigrwydd archaeolegol. Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24 yn cydnabod yr angen i gadw olion archaeolegol. Mae cadw olion archaeolegol yn parhau, pa un a yw'n heneb gofrestredig ai peidio, ac mae eu lleoliad yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio. Mae cynnal archwiliad archaeolegol a chofnodi'r olion yn cael eu gosod fel amodau ar ganiatâd cynllunio yn rheolaidd.

**Deddfwriaeth ddwyieithog**

Fe wnaethoch ofyn am sicrwydd y bydd darparu rhagor o ddeddfwriaeth ddwyieithog yn nod canolog i bob prosiect cydgrynhoi sy'n cael ei gyflwyno yn y dyfodol.

Mae cyflwyno'r rhaglen Dyfodol Cyfraith Cymru yn ei gwneud yn glir y bydd yr holl waith rydym yn ei wneud o dan y rhaglen honno, o'r dechrau'n deg, yn golygu bod mwy o'r gyfraith ar gael yn ddwyieithog. Mae llunio mwy o gyfraith yn y Gymraeg, ynghyd ag ystod o ddeunydd esboniadol ac ategol, yn ei gwneud yn haws i'r Gymraeg gael ei defnyddio ym maes y gyfraith ac yn ein gweinyddiaeth gyhoeddus.

Rwy'n falch o fedru cadarnhau y bydd pob Bil cydgrynhoi yn cael ei gyflwyno'n gwbl ddwyieithog, yn yr un modd â'r holl ddogfennau ategol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac rwy'n fodlon i gynnwys y llythyr hwn gael ei gyhoeddi ar dudalennau'r Bil ar wefan y Senedd.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution